

## Tasg 2

# Rhoi cyngor

Darllenwch y fforwm yma.

| | |
|---|---|
|  Alec: | Straen?  Dw i ddim o dan straen. Mae popeth yn fendigedig! |
|  Ceri: | Rwyt ti'n lwcus – dw i o dan straen achos mae prawf Ffrangeg yfory a dw i ddim yn gwybod y gwaith. |
|  Alec: | Wel, dysga'r gwaith – neu gwna ddyn eira allan o bapur! |
|  Lois: | Gwneud dyn eira allan o bapur! Dyna syniad twp! Dw i o dan straen achos y teulu a ffrindiau. Dw i eisiau mynd allan gyda fy ffrindiau ond mae Mam yn dweud, "Na!" ac mae fy ffrindiau i'n dweud, "Babi Mami!" |
|  Ahmed: | O, diar! Os ydw i o dan straen, dw i'n gwrando ar gerddoriaeth. |
|  Alec: | Pa fath o gerddoriaeth? |
|  Ahmed: | Cerddoriaeth fywiog, uchel. Dw i'n anghofio'r straen wedyn. |
|  Bryony: | Dw i'n mynd allan i redeg os ydw i o dan straen. Pwy arall sy'n mynd allan i redeg? |
|  Ahmed: | Rhedeg? Dydy rhedeg ddim yn helpu. Mae'n gas gyda fi redeg. |

| Geirfa | |
|---|---|
| cyngor | advice |
| gwna | make (command) |
| dyn eira | snowman |
| bywiog | lively |
| uchel | loud |
| anghofio | to forget |
| mae'n gas gyda fi ... | I hate (South Wales) |
| mae'n gas gen i ... | I hate (North Wales) |

# CIWB

1. Atebwch y cwestiynau yma.

a. Pwy yn y fforwm sy o dan straen?

b. Pa fath o straen?

c. Beth ydy'r cyngor ar gyfer delio gyda straen yn y fforwm yma?

ch. Rhowch gyngor arall i'r bobl yma. Ydych chi'n cofio sut i roi cyngor?

Edrychwch yn y rhifyn diwethaf o **Ciwb** os dydych chi ddim yn cofio.

Ysgrifennwch y patrymau pwysig yma:

2. Ysgrifennwch e-bost at un o'r bobl yn rhoi cyngor ar sut i ddelio gyda straen.

Rhowch lawer o opsiynau i'r person yma.

CIWB

| | |
|---|---|
| At:<br><br>Oddi wrth:<br><br>Testun | At bwy<br><br>Eich cyfeiriad e-bost chi<br><br>Am beth mae’r e-bost |
| | Helo. / Bore da / Prynhawn da.<br><br>Dw i’n ysgrifennu ...<br><br>Dylech chi ... / Dylet ti ...<br><br>Ddylech chi ddim ... / Ddylet ti ddim ...<br><br>Pob lwc!<br><br>Hwyl fawr!<br><br>Eich enw chi |

Os ydych chi eisiau darllen am ffyrdd eraill o ddelio gyda straen, ewch i Ymlacio ar draws y byd (2).

| Geirfa | |
|---|---|
| llawer o opsiynau | many options |
| ffyrdd eraill | other ways |